

## CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

---

### Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7 o'r gloch Nos Fawrth, 21ain o Ionawr 2020

**Presennol:** Cyng. Sharon Wyn Parry (Cadeirydd)  
Cyng. Celfyn Furlong  
Cyng. Gwilym O. Jones  
Cyng. Siân Enfys Jones  
Cyng. William Victor Owen  
Cyng. Beryl Salisbury  
Cyng. Dyfed Williams

1. **Ymddiheuriadau:** Cyng. Gordon Owen a Einir Thomas.
2. **Datganiad o ddiddordeb: - dim.**
3. **Cofnodion cyfarfod 19 o Dachwedd 2019**  
Derbyniwyd fod y cofnodion yn gywir - (Cynnig Cyng. William Victor Owen, eilio Cyng. Gwilym O. Jones.)
4. **Materion yn codi o'r cofnodion:**
  1. Cae Chwarae - Trafodwyd yr adolygiad chwarterol. Roedd y broblem gyda'r teils yn gwahanu wedi ei godi eto a bydd yn rhaid gwneud penderfyniad yn fuan ynghylch a oedd hi'n ymarferol i ailosod yr arwyneb diogelwch ai peidio. (Byddai hyn yn dod gyda chost sylweddol o ystyried oedran yr offer). Roedd angen rhoi sylw brys i'r fainc bicnic dywedodd Cyng. Dyfed Williams y byddai yn cael golwg arni.
  2. Llochesi Bws – Roedd y gwaith ar y lloches wrth Stad Tre Ifan wedi'i gwblhau ac roedd y clerc wedi trefnu i'r contractwr gael ei dalu yn unol â'r dyfynbris a dderbynwyd.
  3. Llwybrau - Roedd Cyng. Dyfed Williams wrthi yn adolygu rhain.
  4. Ffordd Minffordd - Nodwyd bod y goleuadau stryd wrth Tyn Rhos wedi'u hatgyweirio. Roedd goryrru yn parhau i fod yn broblem a byddai'r clerc yn cysylltu â CSYM i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am y cais am gael y tîm Gorfodi Cyflymder i ddod yna.
  5. Unrhyw faterion eraill sy'n codi o'r cofnodion: dim.
5. **Penderfyniadau Cynllunio:**
  1. **HHP/2019/270 Heather Bank, Valley.**  
Cais llawn ar gyfer codi modurdy – cytunwyd.
  2. **HHP/2019/264 Plas Llanfair, Llanfair-yn-Neubwll.**  
Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu - cytunwyd.

Llofnod.....Cadeirydd.....

**6. Ceisiadau Cynllunio - dim**

**7. Gohebiaeth Cyngor Sir Ynys Môn: fe nodwyd y canlynol.**

1. Fforwm Cyswllt Cyngorau Tref a Chymuned - 22-01-20
2. Rhaglen Cynllunio Lle
3. Cymorth i Bencampwyr Iaith
4. Blaen Raglen waith y Pwyllgor Gwaith
5. Dogfen ymgynghori -Newidiadau i ffioedd cynllunio a cheisiadau cysylltiedig
6. Cyngor Sir Ynys Môn - datblygu amcanion cydraddoldeb drafft
7. Rheoliadau Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu (Cymru) 2015
8. Uchafswm Gwariant Dewisol 2020-21

**8. Materion Ariannol 31.12.2019**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd yr Adroddiad Ariannol hyd at 31 Rhagfyr 2019 ynghyd â Chysyniadau a Datganiadau Banc.

Yn y banc ar 31.12.2019 - Cyfrif Cyfredol £13,684.61, Cyfrif Cadw £3,934.67

**9. Taliadau i'w gwneud**

Cyflog (Tach. a Rhag.)	£474.18	Gwaith cynnal	£225
Archwilio Cae Chwarae	£42.80	Siec newydd i'r Rhwyd	£150

**10. Lwfans Aelodau**

Atgoffwyd yr Aelodau o'r lwfans statudol o £150 sydd yn ddaliadwy iddynt. Byddai hwn yn cael ei dalu cyn diwedd y flwyddyn ariannol oni bai bod y cleric wedi cael gwybod yn ysgrifenedig nad oeddent am ei dderbyn.

**11. Praesept 2020/21**

Cafwyd trafodaeth fanwl am ragolygon o gyfrifon hyd at 31 Mawrth 2020, y gwariant a ragwelir ar gyfer 2020/21 a'r cronfeydd wrth gefn disgwylidig ar 31 Mawrth 2020 a chytunwyd i ofyn am praesept o £17,000 ar gyfer 2020/21.

Llofnod.....Cadeirydd.....

**12. Rhoddion – cytunwyd i edrych ar rhain yn y cyfarfod nesaf.**

**13. Adroddiadau Cyngorwyr**

1. Gwnaed gwaith brys ar y lloches fws gyferbyn â Llyn Penrhyn yn dilyn adroddiadau ei fod yn pwyso ymlaen ac yn symud gyda'r gwynt. Fe dalwyd £25 yn unol â pharagraff. 4.4 o Reoliadau Ariannol y Cyngor. Awgrymwyd y byddai ychwanegu paneli ochr tebyg i'r rhai a roddwyd ar y lloches yng Nghaergeiliog yn atal hyn rhag digwydd eto, yn y cyfamser cytunwyd i fonitro'r safle.
2. Dywedodd Cyng. Dyfed Williams bod twll pot mawr yn y lon ger y bont reilffordd ar Ffordd Cymyran. Roedd y clerch i roi gwybod i CSYM.
3. Dywedodd Cyng. Victor Owen fod dŵr yn llifo dros y ffordd gyferbyn â Fron Wen, Ffordd Minffordd. Byddai'r clerch yn hysbysu'r Adran Briffyrdd.

**14. Cyfarfod Nesaf – 18fed o Chwefror 2020**

Llofnod.....Cadeirydd.....